# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR



## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 16 – PASG 2009




*Llun: Bryn Jones*

# Y SBWRIELWR SIRIOL!

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- BREUDDWYD BRYAN JONES
- ADAR GAEAF RHEGED
- TINGOCH DU

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

# Golygyddol

***'Nawr lanciau rhoddwn glod, y mae'r gwanwyn wedi dod!'* Ac wedi'r gaeaf oer a gawsom ni on'd ydi hi'n dda croesawu'r gwanwyn eleni?! Pwy sydd ddim yn hoffi'r gwanwyn deudwch?! Wedi'r holl son dros y gaeaf am ddirwasgiad - y gaeaf caletaf yn economaidd ac o ran tywydd ers sawl blwyddyn – all neb wadu fod cyffro deffroad y gwanwyn a dyfodiad tywydd cynhesach (ac oni chawson ni Basg bendigedig?!) gyda'r addewid am haf cynnes i ddod yn gwneud i rywun deimlo'n well ac yn llawn gobaith!**

Weithiau bydd yn anodd tynnu ein hunain o gludwch y ty a mentro allan i oerfel y gaeaf i wylio adar – ond anaml iawn y cawn ein siomi ar ôl mentro ynde? Mae 'a wastad rywbeth i'w weld! Ond gyda thywydd brafiach y gwanwyn a'r haf mae mynd allan nid yn unig yn haws ond yn bleser. Ac, os ewch chi allan am dro – gyda'r nos ar ôl gwaith efallai, neu cyn brecwast os ydych yn foregodwr, cofiwch wneud nodyn o beth welwch chi. Bydd y cofnodion yn ddefnyddiol ar gyfer yr Atlas Adar, ac rwy'n siwr y byddai gan ddarllenwyr Llygad Barcud ddiddordeb yn yr adar sydd gennych ar eich 'patch' chi! Gyda'r llaw, ydach chi wedi clywed y gôg eto? Clywais fy nghyntaf i eleni ar y 12fed o Ebrill! Go dda!

Ydach chi'n bwriadu mynd ar wyliau yr haf 'ma, ynteu ydi'r wasgfa economaidd am eich cadw adre eleni? Os ydych am ei mentro i wledydd pell, wel, cofiwch am adroddiad i *Llygad Barcud* os gwelwch chi adar difyr. Ond be bynnag wnewch chi gwnewch yn siwr eich bod yn rhydd i ddwad i **Steddfod y Bala**. Bydd gan y Gymdeithas stondin yno – byddwn yn rhannu efo nifer o fudiadau gwirfoddol eraill mewn uned dan nawdd Mantell Gwynedd. Cofiwch ddod draw am sgwrs a phaned, ac os oes amser yn sbar gennych mi fuasem yn falch iawn o gael 'chydig o help i edrych ar ôl y stondin o bryd i'w gilydd. Mi fydd rota o'r amseroedd yno – awr neu ddwy, hanner diwrnod neu beth bynnag sy'n gyfleus i chi. O ia, os oes gennych rhywbeth i'w gynnig fel gwobr raffl, gadewch inni wybod. Ac os na, wel cofiwch brynnu raffl!


Cambrian News

Pwllheli slide to home defeat

Hamper of Easter chocolate to be won

Est 1861 — y papur i Wynedd • the paper for Gwynedd — Thursday 2 April 2009

# Feathers flying over osprey project split

VIEWING

**Corddi'r Dyfroedd!**
Dyma sut y torrodd y newyddion nad ydy pethau'n fêl i gyd ynglyn â gwarchod gweilch y Glaslyn (*Cambrian News,* Ebrill 2il, 2009).

Ar yr un llaw mae rhai o'r gwirfoddolwyr, fu mor selog dros y cynllunyn o'r cychwyn, yn anhapus nad ydi'r RSPB am newid y cynllyn tair mlynedd nesa yn gynllun cymunedol fel yr addawyd yn wreiddiol. Ar y llaw arall mae'r RSPB yn gwadu i'r fath addewid gael ei roi.

Beth bynnag am yr holl gecru dynol pob lwc i'r ***gweilch*** – mi fyddan nhw, os cawn nhw lonydd ac er gwaetha pawb a phopeth, yn siwr o fod yn iawn!

**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 16 – Pasg 2009**

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Dafydd Guto, Ieuan Bryn, Bryan Jones, Twm Elias, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd Anrhydeddus –**
Iolo Williams

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Ty'n Ddôl, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TN, (01678) 540 545

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Mehefin os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr *Llygad Barcud*. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Breuddwyd.

### Bryan Jones, Llangammarch

**Mae gan pob adarwr freuddwyd mae am wireddu on'd oes? Mae am fynd i ryw wlad arbennig i weld yr adar yno, neu mae am weld aderyn prin penodol yn y wlad yma, ac yn y blaen . Mae hefyd yn bosib i wireddu'r freuddwyd yn eich milltir sgwâr eich hun. A dyna beth ddigwyddodd i mi y flwyddyn diwethaf, 2008.**




Ers i mi weld fy Marcud Coch cyntaf ar y 15fed o Fai, 1963 'rwyf wedi cael fy swyno gan yr aderyn gosgeiddig yma. Fyth ers hynny 'rwyf wedi treulio oriau, a diwrnodau maith yn ei wylio, ei warchod ac yn modrwyo cywion yn y nythod rwy'n gyfrifol amdanynt yn yr ardal yma.

Dyna un o'r rhesymau pennaf i mi symud i ardal Llangamarch i fyw ar ôl ymddeol ym 1991. Ac ers hynny, er bod y Barcud yn hedfan heibio, ac yn hela yn y caeau gerllaw bron bob dydd, y freuddwyd oedd i weld pâr yn nythu yma.

Trwy gydol Mis Chwefror roedd yna bâr yn hedfan o amgylch y tŷ bob dydd, ac yn galw ar ei gilydd yn gyson ac yn dangos y reddf i baru - roedd y gobeithion i fyny ond er chwilio 'doedd dim sôn am nyth.

Yna ar y 6ed o Fawrth, amser brecwast, dyma weld y ddau yn cario brigau yn eu crafangau ac yn mynd dros y tŷ, i lawr am y coed gerllaw. Fi a'r teulu allan fel bollt trwy'r drws i'r ardd a dyna lle roedd y ddau yn adeiladu nyth mewn coeden dderwen - dim mwy na 60 medr o'r tŷ! Roedd yn foment emosiynol iawn i mi, wrth feddwl fod pedwar deg pump o flynyddoed wedi mynd heibio a breuddwydio am weld nyth yn weddol agos i'm cartref, a nawr roedd pâr yn dod i fyw drws nesa'.

Roeddwn yn medru gweld y nyth o bob ffenest cefn y tŷ, yr ardd, ac o'r tŷ gwydyr -

ac yno sefydlwyd y telesgop am y cyfnod nythu. Rhaid cadw'n gynnes on'd oes?! Bu y plant a mi yn cadw dyddiadur, a'r peth cynta' roedd y plant yn ei wneud cyn brecwast oedd mynd allan at y telesgop i weld a oedd pobeth yn iawn. 'Doedd dim eisiau cloc larwm blwyddyn diwetha'!

Gwelais y ddau yn paru ar y nyth ar y 10fed o Ebrill. Ac o hynny 'mlaen 'roedd y fenyw yn eistedd bob dydd ar y nyth. Bu y gwryw yn eistedd bob dydd am tua awr yn weddol reolaidd dair gwaith y dydd – y peth cynta yn y bore, yna tua canol dydd ac yna tua awr cyn y byddai yn tywyllu.

Erbyn hyn roeddent yn weddol gyfarwydd a'm gweld yn y cae, ac yn ddiddorol, tra na fyddem yn edrych yn syth at y 'deryn ar y nyth, ni fyddent yn symud oddi yno waeth faint mor agos yr euthum. Ond os digwydd imi edrych yn syth atynt, yna codi o'r nyth yn syth a hedfan mewn cylch amdanaf nes y byddwn ddigon o bellter i ffwrdd.

Ar y 19eg o Fai roeddwn yn gweld newid yn eu ffordd o sefyll ac eistedd ar y nyth, ac yn y dyddiau nesaf gweld un o'r pâr yn torri bwyd yn ddarnau mân ac yn bwydo. Cadarnhau beth yr oeddwn yn feddwl - bod yna gyw yn y nyth neu efallai ddau!

Erbyn yr 2ail o Fehefin gwelwyd pen y cyw yn edrych dros ben y nyth, ac o hyn ymlaen roedd y rhieni yn hela ac yn bwydo yn gyson. Roeddwn wedi amcangyfri byddai y dyddiad modrwyo tua yr ugeinfed o'r mis. Ac felly y bu, daeth Tony (Cross) yma ar fore yr 22ain a dringo i'r nyth. Gosodwyd y cyw mewn bag ac i lawr ag ef i'r llawr, lle roedd yna barti croesawu yn disgwyl. Y ddwy ferch, dwy ferch Tony a'r wraig i gyd yn awyddus i weld y cyw barcud cyntaf i ddeor yn y cyffiniau yma.

Yna ei dagio a'i fodrwyo. Nawr fel rheol, mae pob Barcud rydw i a Tony wedi eu modrwyo yn gorwedd ar y llawr ac yn edrych fel eu bod wedi marw, ac mae yn rhwydd iawn eu modrwyo. Ond nid hwn! Fe benderfynodd droi ar ei gefn ac yna suddo ei grafangau mewn i'm bawd, fel petasai'n dweud "Dim siawns gwd boi, dwy'i ddim mynd i wneud hyn yn haws i ti!" A felly y bu, tynnu lluniau ac nol mewn i'r bag ac i fyny nol at Tony ar y nyth.

Pan ddaeth Tony lawr o'r goeden fe welodd y gwaed ar fy llaw a dweud bod yna bach o broblem. Yn y nyth roedd gweddillion llygoden fawr, ac fe fyddai yn syniad cael '*tetanus*'. Erbyn hyn rwyf wedi colli cyfri faint o'r pigiadau hyn rwyf wedi cael, ond y mae well bod yn ddiogel.

O hyn ymlaen roedd y rhieni yn gadael y bwyd yn y nyth i'r cyw ac yr oedd o yn sefyll ar ochr y nyth yn aml. Yna ar y 18ed o Awst fe'i gwelwyd yn gwneud ei hedfaniad cynta o'r nyth ac yna glanio yn y cae, sefyll a galw o'r fan honno, fel petai yn dweud wrth y rhieni "Drychwch! Dyma fi wedi llwyddo!" Yna hedfan yn ôl at y nyth, ac felly y bu am ddiwrnodau.

Erbyn diwedd Awst roeddwn yn dechrau pryderu fod pethau ddim fel y dylsan fod, Roedd y cyw y galw yn ddibaid er fod y rhieni yn cario bwyd iddo, ac nid oedd yn hedfan ond o un goeden i'r llall. Erbyn hyn dylai fod yn hedfan llawer pellach o'r nyth a hyd yn oed yn mynd gyda'r rhieni.

Noswaith yr 2il Awst roedd y cyw yn galw hyd yn oed ar ôl iddi nosi. Dyma fynd at y nyth y bore canlynol a dyna lle 'roedd y cyw yn farw ar y llawr o dan y nyth, a'r rhieni yn hedfan uwch ein pennau. Teimlo'n drist ofnadwy, ond oedd gwaeth i ddod, roedd rhaid mynd i'r ty gyda'r corff a dweud wrth y plant. Tynnu lluniau o'r corff ac yna ei anfon i labordy er mwyn gwneud ymchwiliad gan fod rhesymau i feddwl efallai bod y ffaith bod llygoden fawr yn y nyth ac fod hyny i ymwneud a'r marwolaeth. Nid ydwyf wedi cael y canlyniad ar hyn o bryd.

Felly, er bod fy mreuddwyd wedi eu wireddu, roedd y canlyniad yn un trist, ac fel yr wyf yn gorffen y geiriau hyn ar y 25ain o Dachwedd 2008 mae y pâr yma eto yn hedfan uwchben y ty, ac rydym nawr yn edrych ymlaen yn eiddgar am dymor magu 2009.

# Sbwriela

gan Twm Elias

[Cyfarfod gwaith ar draethau Morannedd a Stumllyn, Sadwrn, Chwefror 28ain, 2009]

**Oedd yn wir, roedd dydd ola'r mis bach yn ddiwrnod da iawn, ac yn help mawr i ddod dros y siom o Gymru'n colli'r gêm rygbi i Ffrainc y noson cynt.**



Y criw eiddgar! Bryn ar y chwith a Maldwyn yn y cefn yn y canol

Diwrnod gwaith oedd o â'r bwriad oedd gwneud rhywbeth cadarnhaol dros yr amgylchedd. Rydan ni'n ddigon parod i fwynhau byd natur, felly pam ddim talu'r pwyth yn ôl, fel 'tae, a'i helpu pan fedrwn ynde?

Y syniad oedd casglu dipyn o'r sbwriel sy'n cael ei olchi i'r lan ar y traeth rhwng Cricieth a'r Greigddu, Morfa Bychan. Mae'r lle'n llanast ar adegau hefo'r holl blasting ddaw i mewn ar y llanw.

Pam hynny tybed? Meddyliwch am yr hen lun hwnnw sy'n portreadu Cymru fel hen wraig yn cario baich (pam na chynnigiodd rhywun ddelwedd nwydus fel y 'Marrianne' Ffrengig, 'd'wn i ddim!?) – efo Môn yn ben i'r hen wraig; Meirionydd a Cheredigion yn gorff iddi a phenrhyn Llŷn ydi ei braich yn sticio allan i'r môr.

Ystyriwch wedyn sut mae hynny yn effeithio ar batrwm llif y cerrynt yn y bae. Bydd un llif yn cario pethau o'r de ar hyd arfordir Meirion a llif arall yn cael ei ddal gan y fraich ac yn cario pethau o'r gorllewin ar hyd glannau Llŷn ac Eifionydd. Pan fydd y ddau lif yn cyfarfod byddant yn arafu ac yn gollwng eu llwyth – yma, yng nghesail Cymru fel 'tae.

Roedd tua dwsin wedi troi allan, yn ogystal â Bryn Jones a Maldwyn Humphreys o Adran y Traethau, Cyngor Gwynedd. Nhw oedd yn cyflenwi'r ffyn codi sbwriel (ffyn efo gefail ar eu blaen), y sachau hel sbwriel a'r '*pick-up*' i gludo'r llwyth oddiyno wedyn.

I ffwrdd a ni yn llawn brwdfrydedd. Ddim cymaint a hynny o stwff ar draeth Morannedd, y pen agosa at Gricieth, ond roedd hynny'n newid fel yr oeddem yn cerdded ar hyd y marian (neu draeth cerrig crynion) gan ddilyn y llinell ben llanw, neu linell froc môr, tua'r dwyrain.



Yr helwyr broc – cychwyn yn selog

Erbyn inni gyrraedd traeth Stumllyn oedd yn rhyfeddol pa mor liwgar oedd y morlin – yn goch, melyn, glas, gwyrdd a phob lliw arall dan haul oherwydd yr holl blasting – yn boteli, bagiau, cartons, tameidiau o linnyn, rhaffau, leiniau pysgota a phob mathau o bethau eraill.



Roedd y gwynt 'mbach o broblem ar adegau...

Nialwch llwyr oedd y rhan fwya o bethau, ac yn eu mysg ambell botel blastig o Ffrainc a gwledydd eraill – cofiwch bod llawer o longau'n dwad i fyny'r môr Celtaidd / môr Iwerddon am Lerpwl, Dulun, Glasgow ayyb ac mae'n siwr bod ambell beth wedi cyrraedd yma oddiar longau'n croesi'r Iwerydd hefyd.

Un peth y dywedodd Bryn a Maldwyn wrthym i gadw llygaid ar agor amdanynt oedd peli mawr melyn a osodwyd yn wreiddiol ar wely'r môr i'r de o Ddulun. Mae rhain yn llawn offer drudfawr i fesur yr amodau ar wely'r môr fel rhan o broses fonitro cyn gosod melinau gwynt oddiar arfordir Iwerddon. Ond fe gollwyd y cyfan – tua tri dwsin o'r peli 'ma yn ddiweddar – gwerth tua £2-3 miliwn! Os cewch chi un, mae gwobr o €,50,000. Fe ddaeth dwy ohonynt i'r lan yn y misoedd d'wytha – un yn Aberdyfi a'r llall ym Môn.



Watsha'r crafanc 'na yn dwad amdanat ti!

Yn anffodus, chafodd yr un o'n criw ni unrhyw beth o werth. Mi gefais i frwsh dannedd newydd sbon ond, am fod gen i un yn barod, i'r sach yr aeth o. Cafodd John Parry esgid ond, er dyfal chwilio, mi fethodd a chael cydmares iddi. Ymysg y pethau eraill ganfyddwyd, daeth Alun Owen, Dinas Mawddwy ar draws chwistrellydd â nodwydd arno. Rhoddwyd hwnnw mewn bocs arbennig i ddal pethau peryglus o'r fath. Gwen oedd yr unig un i ddwad ar draws corff aderyn – pioden fôr, braidd yn ddrewllyd a heb fodrwy arni.



John Parry yn dal i chwilio am gydmares i'r esgid 'na

O holi Bryn a Maldwyn am y pethau mwya trawiadol iddyn nhw ddwad ar eu traws yn rhinwedd eu swydd, yr ateb oedd "cyrff" – sef morloi, dolffiniaid, llamhidyddion (neu 'llambidyddiols' ar lafar) a hydnoed ambell gorff dynol. Wnaethom ni ddim holi gormod am hynny a hithau bron yn amser cinio.

Wedi bod wrthi am ddwy awr a hanner roeddem wedi clirio'n reit dda hyd at tua hanner ffordd i'r Greigddu ac wedi hel dau lwyth '*pick-up*' (aeth Bryn a Maldwyn â'r llwyth cynta i'r depo yn Port tua 11.30). Mae'n rhaid d'eud bod y traeth, o'r lle y cyrhaeddom ni, yn dipyn llai lliwgar erbyn hynny i gyfeiriad Cricieth nag yr oedd o i gyfeiriad y Greigddu!



Oes, mae 'na lot o ffordd i fynd eto Gwen!

Dyma ofyn i'r hogia: "Faint barith hwn yn lân rwan?"

"O, ryw bythefnos" oedd yr ateb. Oes , mae angen dipyn o waith i gadw'r traethau 'ma mewn trefn .




Hwn oedd yr ail lwyth

Ew, roedd yn braf cyrraedd yn ôl at y ceir am ginio. Wedi ffarwelio â Bryn a Maldwyn gyrru wedyn heibio'r castell i bendraw Rhodfa'r Môr a chychwyn ar hyd llwybr yr arfordir. Digon llwm oedd hi ar y môr – heidiau bach o chwiaid duon yn dawnsio ar y tonnau ymhell allan; bili dowcar neu ddau; digon o wylanod penwaig a penddu a gwyach mawr copog yn ei blu haf. Criw o lyfinirod (gylfinirod i chi sy' ddim o'r ardal) yn ffliwtio wrth lanio yn un o'r caeau y tu cefn inni; blew pry llwyd (mochyn daear) yn sownd yn lle roedd o wedi bod yn stwffio dan ffens ac amryw o wahanol adar bach yn llechu yn y gwrychoedd.

Cyrraedd aber yr Afon Dwyfor â'r dŵr wedi gwagio 'dat hanner trai. Gosod y telisgôp ar haid o chwiwellod (104 ohonynt) yng ngheg yr afon; heidiau o wylanod penwaig, penddu, ychydig o'r gefnddu leiaf ac un gwylan gefnddu fwyaf yn sefyllian ar y graean. Roedd yno hefyd goesgochiaid; rhyw hanner dwsin o bibyddion torchog, glyfinirod, dau alarch dof yn yr afon ac, allan ar y môr, dri bili dowcar, gwyach mawr arall a phâr o chwiaid brongoch.

Troi i'r tir a dilyn ymyl yr afon am ryw ganllath go lew a sylwi ar bâr o chwiaid gwylltion yn y tro yn yr afon. Roedd hi'n ddistaw a di-adar yma fel arall. Gadael yr afon a dilyn y ffordd drol (fwdlyd) o'r traeth am ryw chwarter milltir cyn troi a mynd drwy fuarth Nysgian (Ynysgain) Fawr [dyma gartre nhad yn y 1920au – 30au] gan gwbwlhau cylch yn ôl i'r traeth.

Ymlwybro yn ôl i gyfeiriad Cricieth , gan sylwi cymaint oedd y clogwyn pridd yn cael ei f'yta gan y môr. Yn un lle roedd tamaid o glawdd pridd, oedd wedi ei wynebu efo cerrig pennau cwn, reit ar ymyl pen y clogwyn ac yn dangos bod cae wedi bod yno ar un adeg ond ei fod bellach wedi ei erydu reit at sawdl y clawdd.

Cyrraedd yn ôl at y ceir wedi cael diwrnod eitha llawn a phawb wedi mwynhau'r profiad. Rhaid inni wneud hyn eto.

Adre aeth pawb arall, ond mi es i am hufen iâ bach slei i gaffi Cadwaladr cyn ei throi hi am adre i weld Iwerddon yn trechu'r Saeson yn Croke Park. Diwrnod da.

*[Lluniau: Bryn Jones a T Elias]*

# Tudalen y gweilch

**Fel arfer erbyn rhifyn y Pasg o *Llygad Barcud*, bydd newyddion penigamp fod y gweilch eisoes wedi cyrraedd yn ôl i ardal afon Glaslyn i nythu. Felly hefyd eleni pan ddychwelodd y pâr ar Fawrth 22ain, a dodwy tri wy! (Y cyntaf ar Ebrill y 6ed, yr ail ar Ebrill y 9fed a'r trydydd ar y 12fed).**



Gweilch y Glaslyn. Llun: Emyr Evans – www.northwalesbirding.co.uk

Newyddion difyr pellach a adroddwyd gan Emyr Evans ar y wefan www.northwalesbirding.co.uk yw fod un o'r cywion a fagwyd ar y Glaslyn yn 2006 wedi dychwelyd o'r Affrig eleni – ac wedi mynd ati i nythu yn yr Alban!

Cafodd y cyw hwn, â fodrwywyd (rhif 80 du) ar yr 28ain o Fehefin 2006, pan oedd yn bum wythnos oed wedi ei weld yn Dumfries a Galloway ble mae wedi bod yn adeiladu nyth a pharu gyda iar yn yr ardal honno.



Y ceiliog (a fagwyd ar y Glaslyn) uwchben yr iar yn yr Alban - Llun gan Keith Kirk, Countryside Ranger.

Ac eleni – mae gobaith y bydd dau bâr yn nythu yma yng Nghymru... oblegid daeth y newyddion ardderchog fod ceiliog wedi dechrau adeiladu nyth ar warchodfa Cors Ddyfi (eiddo Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn) ar lannau'r afon Dyfi ger Machynlleth dros benwythnos y Pasg! Gobeithio yn wir y daw iar i ymuno ag ef cyn bo hir. (Am ragor o wybodaeth am y warchodfa hon gweler http://www.montwt.co.uk/cors_dyfi.html



Llun gan Emyr Evans – www.northwalesbirding.co.uk

**Cawn adroddiad llawnach am hynt a helynt gweilch Cymru yn rhifyn yr Haf!**

# Ffotograffau Keith O'Brien

Daw'r ffotograffau gwych yma o wefan cyfaill da iawn i'r Gymdeithas sef Keith O'Brien, Trawsfynydd - sydd fel y gwelwch yn dipyn o arbenigwr efo'r camera!



Tinwen y garn



Cwtiad torchog bach



Gwyddau Canada



Pïod y môr

Pam nad ewch draw i http://www.pbase.com/gefailgof/anifeiliaid i weld mwy?

(Pob llun: hawlfraint Keith O'Brien)

# Taith Ynys a Thalsarnau

Dydd Sadwrn Mawrth 28ain 2009

Rhodri Dafydd

**Wedi wythnos braf a gododd ein gobeithion am ddydd Sadwrn heulog cynnes i groesawu'r gwanwyn a'r adar mudol oedd wrthi'n dechrau cyrraedd, daeth siom wrth godi fore Sadwrn Mawrth yr 28ain...a gweld cymylau duon yn casglu, a'r gwynt unwaith eto yn filain! Ond rydym fel Cymdeithas wedi hen arfer â mynd allan dan y fath amgylchiadau, felly dyma wisgo'r dillad glaw amhrisiadwy unwaith eto a'i chychwyn hi am y drws!**

A dyna gyrraedd fferm Llechollwyn. Wedi rhyw ugain munud o edrych allan ar yr afon Dwyryd, yn nannedd y gwynt a'r cawodydd oer yn annifyr o wlyb (!) – buan iawn y sylweddolwyd fod yr adar yn gallach na ni ac yn cuddio rhag y gwynt! Gwelwyd ambell i wylan benddu, y gwyddau Canada bondigrybwyll a hwyaid yr eithin ar yr afon – cyn i ni droi ein cefnau ar yr aber wyllt, agored, a symyd i fyny'r ffordd ryw ½ milltir i Glanywern.

A dyna braf oedd cael cysgod rhag y gwynt! Dilyn llwybr bendigedig gyda'r afon at bont y Glyn, â blodau'r gwanwyn yn denu ein sylw o dan ganopi'r coed a sawr y garlleg gwyllt y nein ffroenau. Yn gefndir i'r cyfan roedd canu titwod ac ambell i robin – yn datgan fod y gwanwyn yma hyd yn oed os nad oedd hi'n teimlo'n wanwynol iawn wrth yr aber!


Dyna dinc diriogaethol yn denu sylw pawb – a **bronwen y dwr** yn gwibio heibio fel mellten, ei fron wen i'w gweld yn amlwg wrth iddo ruthro uwch wyneb y dwr.



http://www.pixalo.com/gallery/data/1125/Dipper.jpg

Ceiliog tirogaethol oedd hwn heb os, ar 'batrol' yn diogelu ei strimyn byr o'r afon, â'r safle nythu o dan y bont bid siwr.

Troi oddi yma wedyn i fyny am ddyffryn y Glyn, a dilyn llwybr hudolus arall oedd yn arwain i fyny yn raddol o dy Gefail y cwm drwy gymysgedd o goedwig collddail a pheth llarwydd. Aros am ennyd a Twm yn tynnu ein sylw at alwad diriogaethol arall – y tro hwn **delor y cnau** oedd wrthi.



http://www.mattcolephotography.co.uk/Galleries/birds/Other%20birds/Nuthatch%207.jpg

Yn y coed oddi tanom dyna **siff-saff** yn sboncio o frigyn i frygyn, gan ehedeg bob hyn a hyn i ddal rhyw bryfyn. Ymhen wythnos neu ddwy byddai'r rhain ymhobman a'u cân nodweddiadol yn llenwi cefn gwlad Cymru – heddiw fodd bynnag digon mud oedd yr aderyn bychan yma – ei gloc biolegol heb ddechrau tician eto siwr o fod! Gwelwyd pâr o **ditwod cynffon hir** – y rhain bellach heb fod yn rhan o haid fawr o ditwod ond yn hytrach wedi cilio'n barau i breifatrwydd bywyd 'priodasol'.

Daeth cawod go drom i darfu arnom eto wrth feudy Dolorgan, ond ymlaen â ni,

adarwyr dewr fel ag ydym, gan ddilyn y llwybrau hyd nes cyrraedd llyn Tecwyn Isaf a chael tamed o ginio haeddiannol. Dim ond hwyaid gwylltion oedd i'w gweld yma heddiw - yn anffodus nid oeddem am gael ail gyfle i weld y dyfrgwn a fu yn ein diddanu llynedd! Gwelwyd **bwncath** yn hwylio uwchben, ac ar ôl cychwyn wedi cinio dyna glywed rat-a-tat-tatian y **gnocell fraith fwyaf** yn y coed gerllaw – na, dyna ddau ohonynt – yn atsain ar fryn Tecwyn. Ie, dyna arwydd arall sicr fod y gwanwyn ar droed!


Aros ar y ffordd darmac am dipyn, ac anelu am fferm Cefn Trefor. Ac wele olygfa odidog o aber y Ddwyryd ac ynys Gifftan oddi tanom! Roedd ambell i **nico** yn yr ardal hon hefyd, y tir amaethyddol amrywiol yn ddelfrydol iddynt.

Cyn pen dim yr oeddem ar ein pennau ym mhentref Talsarnau, a thra roedd Twm wrthi'n traethu hanes tafarn y '*Ship aground*' – dyna Gareth a Huw Dafydd yn diflannu – cyn bloeddio '**BRAS MELYN**!' Oedd yn wir – roedd pedwar or adar tlws ymysg brigau'r coed yng ngardd un o'r tai. Dyna gofnod gwych i'r atlas adar gan fod yr adar yma wedi prinhau yn arw.



http://news.bbc.co.uk/olmedia/1095000/images/_1097953_yellowhammer300.jpg

A dyna ni yn ol yn y gwaelodion. Croesi'r rheilffordd a chael ein hunain ger y clawdd llanw. A dyma wledd arall i ni – roedd yma bedwar **tinwen y garn**, newydd gyrraedd yn ôl o'r Affrig ac yn edrych ar eu gorau yn eu cotiau llachar, newydd. Hedfan yn ôl ac ymlaen dros y clawdd llanw, gan orffwyso ar y ffens bob yn ail yr oedd y rhain, ddim yn llonydd am eiliad wrth iddynt ddal pryfaid ac adfer eu hegni ar ôl teithio mor bell.



http://www.bwifingal.ie/images/Male%20Wheatear.jpg

Wel roedd y diwrnod yn mynd yn well ac yn well! Dyma'r cyntaf i lawer ohonom eu gweld eleni. Roedd yma hefyd amryw o **gorhedyddion** – cyfrwyd tua deugain. Tybed ai pasio drwy'r ardal oedd y rhain ar eu ffordd tua'r gogledd? Wrth ddod yn ôl at afon y Glyn dyna gael ein cyffroi eto gan ddau **hebog tramor** yn hela uwch y morfa heli.

Coronwyd y diwrnod gan fflach o laswyrdd ac oren llachar uwchben un o ffosydd Asiantaeth yr Amgylchedd – ie, '*Haleliwia*!' fel y buasai Twm yn ei ddeud - dyna **las y dorlan** yn saethu ar hyd wyneb y dwr cyn diflannu i ddrysfa o eithin a choed helyg! Roedd pawb wedi eu cyfareddu gan y 'deryn bach lliwgar yma. Wel yn wir, wedi i bethau fynd yn dawel tua amser cinio cafodd ein hamynedd ei wobrwyo ddiwedd y pnawn yn siwr i chi! Dyna oedd diwrnod da o adarydda – a hyn oll wedi i mi feddwl yn y bore ai doeth ai peidio oedd cychwyn allan ar dywydd mor fudr! Dyna brofi ei bod yn werth mynd allan beth bynnag fo'r tywydd - bydd byd natur yn siwr o wobryo'r rhai sy'n mentro!

# Adar gaeaf Rheged

Ieuan Bryn

**"Beth oedd ar eich pen chi?" oedd cyfarchiad *cyntaf* y danllyd Dr Kate i gynbennaeth i mi. Chofia' i ddim mo'r union reswm dros y cyfarchiad, dim ond bod a wnelo fo rywbeth â darlithio i gymdeithas leol a threfnu gwely iddi wedyn.**


Y cyfarchiad hwnnw oedd ar fy meddwl i wrth i ni yrru i fyny i'r Alban i wylio adar gaeaf hen wlad Rheged, ar un o'r penwythnosau (Ionawr 16eg-18fed eleni) a allai fod gyda'r mwyaf tymhestlog y gaeaf yma, yn ôl y proffwydi tywydd ar y pryd.

Gweld gwyddau Caerlaverock a'r cyffiniau, ar lannau gogleddol Merin Rheged *(Solway Firth)* oedd amcan y daith, a wigwam fyddai ein llety. Awgrymodd y perchennog mai sylfaenol iawn fyddai'r cyfleusterau ynddi e.e. dim cyflenwad dŵr. Ac felly, aethom â llond sach o fwyd, a phob mathau o daclau coginio efo ni – rhag ofn.

Cyrraedd y lle gwersylla, a synnu gweld wigwam bren, foethus, newydd sbon danlli! Dim tap na sinc ynddi hi, ond golau trydan, gwresogydd, a hyd yn oed rhewgell!

Roedden ni wedi cychwyn o Sir Fôn fymryn wedi wyth y bore, a thoc wedi un roedden ni'n dotio ar gannoedd ar gannoedd o wyddau ac elyrch a hwyaid yng Nghanolfan Adar Dŵr Caerlaverock.

Mi ges i 'nghyfareddu'n syth gan y **gwyddau gwyran** *(Branta leucopsis).* Y fath batrwm o ddu a gwyn a llwyd ariannaidd... Ar ynysoedd Arctig yr Iwerydd Gogleddol y mae'r rhain yn magu'n bennaf: poblogaeth o tua 40,000 ar yr Ynys Las (ac yn gaeafu ar Ynysoedd Heledd a gorllewin Iwerddon), poblogaeth o tua 27,000 ar Ynys Svalbard (ac yn gaeafu ym Merin Rheged), a phoblogaeth o tua 130,000 ar Novaya Zemlya (ac yn gaeafu yn yr Iseldiroedd).




http://www.naturspesialisten.no/aimages/hvitkinngaas34123_1136660608_1156760933.jpg

Yn ôl un chwedl, datblygu o'r 'cregyn gwyran' ar froc môr wnaethon nhw...

O'r 27,000 sy'n gaeafu ym Merin Rheged, roedd yna oddeutu 6,000 yn Caerlaverock y pnawn Gwener hwnnw.

Ar y llynnoedd, roedd yna bedwar ugain o **elyrch y Gogledd** *(Cygnus cygnus)*, sef yr un rhywogaeth ag a ddaw o Ynys yr Iâ i aeafu ar lannau Afon Glaslyn bob blwyddyn. Mae'r alarch yma'n llai na'r **alarch dof** *(Cygnus olor)*, ond fymryn yn fwy na'r **alarch Bewick** *(Cygnus columbianus)*. Mae'n bum troedfedd o hyd, yn 7½ troedfedd ar draws yr adenydd, a gall bwyso hyd at 30 pwys. Ond er gwaetha'i bwysau, mae'n ehedwr cryf, a bydd ambell un yn hedfan cyn belled â Gogledd America! Hwn ydi aderyn cenedlaethol y Ffindir, ac mae ambell bâr prin yn nythu ar Ynysoedd Erch yng ngogledd yr Alban.



http://www.birding.se/foto/mindresangsvan9.jpg

Pan oedden ni'n cyrraedd y ganolfan, fe groesodd gwenci'r lôn o'n blaenau, yn ei gwisg aeaf wen – o fewn tua 15 llath! Ac yn y gwrychoedd ar dir y warchodfa, gwelsom dri **golfan y mynydd** *(Passer montanus)* a mwy nag un **bras melyn** *(Emberiza citrinella)*.



http://www.wildaboutbritain.co.uk/gallery/files/9/8/4/yellowhammer_male_560415.jpg

Erbyn diwedd y pnawn, roedd yna gymylau hyll iawn yn crynhoi, a chael a chael oedd hi i gyrraedd y cerbyd cyn iddi ddechrau dymchwel y glaw.

Roedden ni wedi cael un pnawn sych o wylio'r gwyddau, beth bynnag!

Gwyntog iawn oedd hi wedyn, a'r drefn wedi iddi nosi oedd carlamu rhwng cawodydd i gegin y lle gwersylla efo stôf a thegell a phentwr o fwyd. Coginio'r bwyd, golchi'r ychydig lestri, a'i sgrialu hi'n ôl i'r 'babell'.

Yn hwyrach, roedd yn rhaid picio i Annan i gael rhagor o fara! Yno, yn y stryd fawr, dyma sylwi ar hanner cant o sigl-i-gwt yn clwydo mewn coeden fechan, yng ngolau'r stryd brysur, heb falio botwm am neb!

Ben bore trannoeth, roedd yr awyr yn annisgwyl o glir, a'r haul yn chwalu ei liwiau dros Ferin Rheged – yr un haul yn union ag a welodd Urien yn codi a machlud ar ei deyrnas Frythonig, fil a hanner o flynyddoedd yn ôl...

> Pen a ddygaf ar fy nhu,
> Pen Urien, llariaidd lywiai lu:
> Ac ar ei fron wen frân ddu.
> (Canu Llywarch Hen).

Ar ôl brecwast, siwrnai drawiadol iawn i Warchodfa'r Gymdeithas Gwarchod Adar yn Mersehead, ddeg milltir ar hugain i'r de-orllewin o Caerlaverock. Tiroedd gwyrddion a'r haul yn gwefru pob cornel o'r wlad. Coed esgyrnog, llwm ar gyrion y caeau, bythynnod tywodfaen, siopau bach pob dim, ac adfeilion hen abaty efo enw od iawn – 'Sweetheart Abbey'.

Wrth i ni nesu at y warchodfa, roedd yna filoedd ar filoedd o wyddau'n britho'r caeau. Pïod y môr a rhai cannoedd o gornchwiglod yn gymysg â nhw. Weithiau, mae'r gwyddau'n codi a hedfan yn donnau duon i gaeau gwahanol. Ac o'u cwmpas nhw yno, mae yna ugeiniau o gylfinirod.

Dod ar draws dyrnaid o **linosiaid y mynydd** *(Carduelis flavirostris)*, wrth gerdded y glannau ar ffin y warchodfa. Mae'r adar yma'n brin iawn yng Nghymru, erbyn hyn. Ymysg y cerrig a'r tywod yr oedden nhw, a gwta ganllath oddi wrthyn nhw, roedd yna haid o

linosiaid gwyrdd a oedd yn hynod o debyg i bilaod, ar yr olwg gyntaf.

Yn ôl staff y warchodfa, roedd yna oddeutu 8,000 o wyddau gwyran ar dir y warchodfa y diwrnod hwnnw (maen nhw'n eu bras gyfri bob bore!), ac mewn un cae, rhoddodd cudyll glas gynnig ar gipio un o bïod y môr, gan beri i'r cyfan ohonyn nhw godi fel un gŵr...

Ar ein ffordd yn ôl i Powfoot, aethom i chwilio am **wyddau troedbinc** *(Anser brachyrhynchus)*, a dod o hyd i haid enfawr o wyddau'n edrych am le i glwydo, mewn cae ar gyrion pentref Shearington. Roedden ni ar godiad tir, ac yn gwylio'r gadwen hir yn gostwng gan bwyll bach, a'r clegar a'r cyffro'n atseinio.

Dros nos, roedd hi'n ddrycin, a bu'n rhaid codi fwy nag unwaith yn ystod y nos i gadw golwg ar y tonnau. (Roedden nhw o fewn tua ugain llath i'n rhiniog ni!) Ond cyn iddi wawrio, roedd yr hyrddwynt wedi gostegu, a lleuad ac ambell seren hyd yn oed i'w gweld.

Codi pac yn fuan wedyn, ac anelu am Warchodfa'r RSPB yn Leighton Moss, Sir Gaerhirfryn (rhan arall o'r Hen Gymru) yn y gobaith o weld aderyn y bwn.

Roedd hi'n sych ac yn heulog pan gyrhaeddon ni, ac amrywiaeth da o hwyaid ar y llynnoedd – hwyaid llostfain, hwyaid copog, chwiwellod, corhwyaid, a dwy hwyaden lwyd. Glaniodd dwsin o **wyddau gwyllt** *(Anser anser)* ar un o'r llynnoedd, a rywle yng nghanol yr erwau o hesg, rhoddodd rhegen y dŵr un alwad uchel, flin.

Daethom ar draws un dryw eurben a thitwod cynffon hir mewn llwyn o goed gwern. Ond dim sôn am aderyn y bwn, er iddo hedfan dros y guddfan y diwrnod cynt! Dim sôn am yr un titw barfog chwaith.

Cyn gadael y warchodfa, mynd i guddfan a godwyd er cof am Eric Morecambe, y comedïwr. Ac wrth i mi chwerthin yn ddistaw tu mewn, dyma 800 o gornchwiglod yn codi gyferbyn â ni, am bod yna **gudyll bach** *(merlin)* yn eu pryfocio.



http://www.birdphotography.com/species/photos/merl-2.jpg

Roedd yna rai cannoedd o chwiwellod yn swatio ar lan y pwll sydd o flaen y guddfan, a phedair gwydd droedbinc yn pori.

Gair Gaeleg am 'ehedydd' ydi'r 'laverock' yn Caerlaverock. Fe glywson ni un neu ddau wrth ymweld â'r warchodfa honno, ond bydd rhaid dychwelyd rywdro yn y gwanwyn i'w clywed ar eu gorau, gan anwybyddu pob cwestiwn tebyg i 'Beth sydd ar eich pen chi?'. Oherwydd wrth droi clust fyddar i gwestiynau felly y bydd rhywun yn cael rhai o'r profiadau mwyaf cofiadwy ym myd adar.

# Ymholiad o'r De

76 Chandlers Way
Y Marina
Penarth
Bro Morgannwg

Ionawr 7ed 2009

Annwyl Olygydd

Digon llwm yw'r amrywiaeth adar, ac yn wir niferoedd adar bychain, yn agos i'm cartref ym Marina Penarth, ar draws y dŵr o'r Cynulliad. Bu'r ardal a elwir bellach yn Fae Caerdydd yn gyrchfan rhydyddion di-ri yn y gorffennol, a ddeuai i wledda ym mwd afonydd Elai a Thaf. Ac er bod y mwyafrif o'r rheini bellach wedi cilio, mae niferoedd y mulfrain wedi cynyddu'n sylweddol, ynghyd â'r hwyaid gwylltion ac elyrch dof – ac ambell i gwtiad torchog yn cardota ar erchwyn y llun enfawr croyw a grewyd gan yr argae ar draws yr aberoedd.

Ond does fawr ddim anghyffredin yn dod ar ein cyfyl fan hyn, yn enwedig gan fod gerddi bychain iawn i'n tŷ ni a'r tai cyfagos – a bod llain llydan ac agored o 'barc' gwyrdd rhyngom a'r coedydd ar lethrau garth Penarth, fel bod adar bychain heb lwybr gwrychod a llwyni i deithio ar ei draws. Piod rif y gwlith a cholomenod gwyllt ynghyd â haid o wylanod sy'n sglaffio'r mwyafrif helaeth o'r bwyd a rown allan. Prin iawn yw'r titwod ac adar to ond mae ambell linos werdd, a phob rhyw hyn a hyn daw tua hanner dwsin o nicos i fwydo ar yr hadau niger. Ond wrth i'r coed ddecrhau aeddfedu yn y datblygiad newydd hwn, mae ambell ryfeddod i'w weld.

Tridiau wedi'r flwyddyn newydd, beth gyrhaeddodd y bwrdd adar, deirllath o ffenest fy stydi, ond pump o ditwod cynffon hir yn ymladd dros y peli siwet – y cyntaf i ni eu gweld yn yr ardal hon. Ac wrth i mi eu gwylio, beth landiodd ar y ffens wrth eu hymyl, ond tingoch ddu gwryw hardd – y cyntaf i mi ei weld yn Ne Cymru. Mae'n dychwelyd bod dydd ers hynny – yn wir mae o gwmpas ar hyn o bryd, er ei fod yn swil iawn ac yn anfodlon aros ddigon hir i dynny ei lun, yn eistedd am ennyd ar y ffens yn hytrach na'r bwrdd adar.

Holi ydw i, faint mor aml y gaeaf hwn y gwelwyd y tingoch ddu yma yng Nghymru? Mi wn eu bod yn bridio bellach yn Ne-Ddwyrain Lloegr, ac mae'n siwr mai'r tywydd garw a'u gyrrodd draw fan hyn, i ymweld ag ardal y Cynulliad. Ond ble arall yng Ngymru fuon nhw'n ymweld? Ac oes unrhyw rhyw gofnod ohonyn nhw'n nythu yma?

Yn ddiffuant

Alwyn Gans


## Ymateb gan Twm Elias:

Mae cofnodion Cymreig o'r tingoch du yn mynd yn ôl i 1847 pan gafwyd dau (fe saethwyd un!) yn Sir Benfro. Ond pethau prin iawn iawn oedden nhw bryd hynny. Sonia Forrest am 4 ym Meirionydd ac 1 yn Sir Fflint rhwng 1886 ag 1889 ac ni chofnodwyd yr un yn Sir Gaernarfon tan 1910 nac ym Môn tan 1912.

Erbyn hyn maent ychydig yn fwy cyffredin hefo rhwng dau a deg dwsin yn cael eu gweld rywle yng Nghymru bob blwyddyn. Roedd 1995 yn flwyddyn eithriadol o dda pan welwyd 150 drwy Gymru yn y gwanwyn a 135 yn yr Hydref. Siroedd arfordirol y de gaiff y niferoedd mwya – Penfro yn arbennig a Cheredigion hefyd. Rhaid aros am 'bach eto i gael eu niferoedd am y gaeaf hwn.

Bydd amryw yn aros dros y gaeaf; yn weddol reolaidd mewn rhai mannau fel Dociau Caerdydd (ddim yn bell o Penarth), ardal Pengam, Porthcawl, clogwynni Gwyr, rhannau o Benfro a Cheredigion, Bangor, Caergybi, Y Gogarth a Gronant. Mae nhw'n gaeafu ambell flwyddyn hefyd ar y Greigddu, Morfa Bychan a chlogwynni Cilan. Clywais gan Elfyn Lewis iddo weld un ar y clogwyn uwchben Boston Lodge ym mhendraw'r Cob, Minffordd yn ddiweddar.

Ar y cyfandir mae nhw'n adar llawer mwy cyffredin – yn un o adar y gerddi hydynoed. Dros y blynyddoedd diwethaf maent wedi bod yn ymledu i'r gorllewin a'r gogledd. Efallai y byddan nhw'n dechrau bridio yma yn rheolaidd rhyw ddydd. Erbyn hyn mae rhyw 100 yn bridio bob blwyddyn yn Lloegr ond dim ond dau gofnod sy' ohonyn nhw yn nythu yng Nghymru – un yng Nghaerdydd yn 1981 ac un arall yn Sir Fflint yn 1984. Cawn fyw mewn gobaith y byddan nhw'n ymgartrefu yma.



Tingoch Du, Barton, Gogledd Swydd Lincoln, Rhagfyr 2003 www.nyctea.co.uk/

# Casglu Cardiau Post sy'n ymwneud ag adar

Dafydd Guto, Llanrug


**Yng *Nghasgliad Tan y ffordd*, a drosglwyddwyd i ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn y flwyddyn 1999, a hynny er mwyn cynnal diddoreb y genedl, a chadw ei chalon i guro, gan obeithio y byddai casgliad o'r fath yn ennyn diddordeb astudwyr cardiau post o bedwar ban byd, ceir, wir i chwi, cymaint â 5,129 o wahanol gardiau post, (y cyfan yn £1,271-57 ran gwerth pryniant), ac yn ymwneud â gwahanol themâu. Y cerdyn post mwyaf diddorol yn y Casgliad dan sylw ydyw un o *las y dorlan*, (y math apliqué o gerdyn*)*, sydd wedi ei greu o ddarnau bychain o stampiau lliwgar wedi eu gludio ar gerdyn hyd nes ffurfio yn ei gyfanrwydd llun llawn harddwch.**

Gydag adar mewn golwg, cefais gyfle yn ystod y flwyddyn 2008, a dechrau 2009, i fwrw golwg ar yr hyn sydd ar gael yma yng Nghymru ein gwlad ar ein cyfer ni brynwyr cardiau post. I'r diben hwn ymwelwyd â siopau, yn ogystal â ffeiriau.

Dyma rai esiamplau –



*W224 Y Barcud. Cardiau Cymric.*



*Janet Baxter, Ynyslas, Borth, Ceredigion SY24 JZ Tel: 01970 871 333*



*M130 Llyn Padarn, Llanberis. Cymru Wyllt, Jeremy Moore Tel 01970 880827*

Yr hyn sy'n wirioneddol galonogol ydyw bod cardiau post mor rhad i'w prynu mewn siopau, (rhywle rhwng deg i bedwar deg ceiniog ran fynychaf).

Cafwyd hefyd gyfle gyda'r blynyddoedd i brynu cardiau post mewn gwledydd eraill. Isod, ceir cerdyn post, a brynwyd yn yr Alban:-



*Gwalch y Pysgod WW41. Llun: Neil McIntyre. Llyfrgell Bywyd y Byd, 8 Y Sgwâr, Aberfeldy, Swydd Perth, YR ALBAN PH15 2DD; Tel: 01887 820449*

A beth am hwn wedyn? Ar yr 19eg o fis Mehefin y llynedd postiwyd i'm cymar a minnau gerdyn post, a gynhwysai ffotograff *eryr penfoel*, o Dde-Ddwyrain Alaska, sydd hefo'r nifer mwyaf o *eryrod penfoel* yn yr holl fyd. Y mae'r cerdyn post dan





sylw i'w drysori hyd byth, ac yn rhan o'r albwm cardiau post Byd Natur a gedwir acw ar yr aelwyd. Dau gyfaill inni, sef Beti a Seiriol Owen, Crud yr Awel, Bethel, Arfon, a'i ddanfonodd atom, a'r neges hyfryd iddynt *weld yr aderyn arbennig yma yn hedfan uwch ein pennau.* Eir rhagddo i ddweud eu bod ym Mae Glastel yn ystod yr un diwrnod wedi taro ar *arth goch a'i phlant, a hefyd anferth o forfil*, a bod y *tywydd yn anhygoel o braf i feddwl ein bod ynghanol yr eira!*

Yr hyn a fuaswn yn hoffi ei weld yn digwydd yma yng Nghymru ydyw gweld cyhoeddi ffotograffau Ted, a Naturiaethwyr ein gwlad, ar ffurf cardiau post. Y mae wirioneddol angen hynny, a'r cynhyrchu'n waith argraffwyr o Gymru. Ydyw, y mae'n hen bryd inni ddeffro o'n trwmgwsg, a symud pethau yn eu blaen!

*Y tro nesaf, os byw ac iach: Casglu arian hefo lluniau o Fyd Natur yn yr amlwg arnynt.*

**A dyma un o eiddo y Golygydd:**




**Oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Llygad Barcud fwy o gardiau post adaryddol diddorol tybed? [GOL.]**

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Dydd Sadwrn Ebrill 25ain 2009
**Taith ar y Lôn Goed**
Dan arweiniad Twm ac Edward Elias
Cyfarfod a pharcio yng ngheg y Lôn Goed, ger Golchdy Afonwen (SH439377) 10.30 yb

Dydd Sul 24ain Mai 2009
**Cwm Ystradlyn**
Dan arweiniad Tom Jones
Cyfarfod ger y llyn (SH557441) am 10.00 y.b. – a cofiwch mai bora dy' **Sul** fydd hwn!

Dydd Sadwrn 27ain Mehefin 2009
**Ynys Lawd a Mynydd Twr**
Dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Cyfarfod ym maes parcio'r RSPB, Ynys Lawd (SH210818) am 10.30 y.b.

Yn cychwyn ar yr 2il Fai, 2009 ac yn para am chwech wythnos
**Arddangosfa o luniau Charles Tunicliffe: Plas Newydd, Llanfairpwll.**
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n trefnu'r arddangosfa, ac yn ogystal â lluniau Tunicliffe bydd lluniau gan Terrance Lambert, Kim Atkinson a Philip Snow. Ar Sadyrnau yn ystod cyfnod yr arddangosfa bydd sgyrsiau a gweithdai gan rai o'r artistiaid.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwenno Mair Griffith, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Plas Newydd, 01248 711936

**YMWELIAD AG YNYS ENLLI, 9-16 MAI 2009**

Dyma wahoddiad i unrhyw un ymuno â chriw o naturiaethwyr ar Ynys Enlli rhwng dydd **Sadwrn, 9fed a dydd Sadwrn, 16eg Mai 2009**. Mae lle i rhyw bedwar ymhob tŷ (mwy os ydy pobl yn fodlon rhannu llofftydd) a mae tai ar gael ar hyn o bryd. Os oes gennych awydd dod draw, cewch ddod fel unigolyn a rhannu'r tŷ efo bobl eraill, neu os ydach chi'n gwybod am dri neu bedwar arall fyddai'n hoffi rhannu'r tŷ efo chi, mae croeso i chi gadw tŷ neilltuol o'ch dewis chi.

Os ydach chi isho mwy o fanylion am y tai, ewch i wefan Ymddiriedolaeth Ynys Enlli ar www.enlli.org ac os ydach chi isho mwy o fanylion am be fyddwn yn ei neud yno yn ystod yr wsnos, cysylltwch efo fi ar yr e-bost neu drwy fy ffonio i ar 01766 514774.

Mae mis Mai yn un o'r adegau hyfrytaf o'r flwyddyn i fod ar yr ynys. Mae'r dydd wedi ymestyn, yr ŵyn bach yn prancio, yr adar ymfudol yn galw heibio, yr awyr yn las a'r haul yn sgleinio. Yn ogystal â chrwydro'r ynys a gwylio'r bywyd gwyllt, mi fydd yn bosib i rai ohonon logi cwch Colin Siôn a mynd o amgylch yr ynys i wylio'r morloi a'r adar.

Os ydych chi'n awyddus i ddod efo ni, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cysylltu â mi yn 14 Stryd Wesla, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9DS (01766 514 774) neu anfonwch e-bost at hafm@hmeredydd.freeserve.co.uk.
Croeso i bawb!

Haf Meredydd


SNOWDONIA NATIONAL PARK
PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

*Plas Tan y Bwlch*

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600